**Ein Cynnydd: 2008 – 2015**

**Cywiriad i'r astudiaeth achos ar dudalen 16/17**

Diogelu ym myd Chwaraeon

Mae'r enghraifft hon yn dangos sut cafodd pobl ifanc eu cefnogi i sicrhau bod eu lleisiau a'u pryderon yn cael eu clywed, ochr yn ochr â delio â dulliau amrywiol nifer o asiantaethau a sefydliadau o ddiogelu plant a phobl ifanc ac ymgysylltu â nhw.

Fe gysylltodd hyfforddwr athletau â'r gwasanaeth cyngor a chymorth oherwydd ei fod yn teimlo ei fod e a grŵp o blant wedi cael eu trin yn annheg gan eu clwb a chadeirydd y clwb. Roedd yr hyfforddwr yn honni bod bwlio a chamwahaniaethu hiliol gan y clwb wedi golygu ei fod e a'r grŵp o bobl ifanc roedd e'n eu hyfforddi wedi cael cais i adael y clwb. Roedd yr hyfforddwr wedi cysylltu â'r cyrff llywodraethu perthnasol ac elusen plant amlwg, ond roedd yn honni bod y sefydliadau hyn heb wneud dim i ddatrys y sefyllfa.

Cawson ni wybod fod y bobl ifanc yn teimlo eu bod nhw wedi cael eu hanwybyddu, a heb gael gwrandawiad yn y broses. Gwnaethon ni drefniadau i gwrdd â'r bobl ifanc a gwrando ar eu pryderon ynghylch beth oedd wedi digwydd yn y clwb a gyda'u hyfforddwr, ac i glywed ganddyn nhw beth roedden nhw eisiau ei wneud am y sefyllfa.

Ond wrth wneud ymholiadau cychwynnol i'r mater oedd wedi cael ei godi gyda ni, fe ddaethon ni'n ymwybodol bod asiantaethau eraill wedi ymwneud â'r hyfforddwr, gan gynnwys Swyddog Bwrdd Lleol Diogelu Plant o awdurdod lleol, a roddodd wybodaeth i ni am nifer o bryderon oedd yn parhau ynghylch yr hyfforddwr yma.

O ganlyniad i'r pryderon diogelu gafodd eu hadrodd i ni, oedd yn cynnwys technegau hyfforddi amhriodol, defnydd amhriodol o ddiodydd egni, defnyddio prawf adnabod ffug a sylwadau ffug ynghylch cymwysterau hyfforddi, hwylusodd un o'n swyddogion Ymchwiliadau a Chyngor gyfarfod rhwng y cyrff llywodraethu, yr elusen plant amlwg dan sylw a'r swyddog diogelu lleol.

Roedd adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol wedi bod yn delio gyda'r honiadau diogelu, ond ar sail ein hymholiadau cychwynnol, doedd dim sôn bod cyfarfod amlasiantaeth wedi cael ei gynnal i rannu gwybodaeth, a doedd neb i weld yn gwrando ar y bobl ifanc nac yn esbonio wrthyn nhw beth oedd yn digwydd. Roedden ni wedi dod yn ymwybodol o nifer o wahanol bryderon oedd heb eu rhannu. Trefnwyd y cyfarfod i symud ymlaen gyda chwynion y bobl ifanc ac i rannu gwybodaeth ddiogelu ynghylch yr hyfforddwr.

Ar ôl y cyfarfod ar y cyd fe wnaeth ein swyddfa ni hwyluso cyfarfod gyda'r plant oedd wedi cwyno wrth ein swyddfa, i esbonio wrthyn nhw beth oedd wedi digwydd a sut roedd eu cwynion wedi cael sylw. Cafodd y cyfarfod ei gynnal yn ein swyddfa ym Mae Colwyn, ac ar ôl trafodaeth hir pryd y cafodd y bobl ifanc gyfle i gael atebion i'w holl gwestiynau, roedd y plant yn fodlon eu bod wedi cael gwrandawiad. Cytunodd y cyrff llywodraethu fod y cyfarfod yn un buddiol a chadarnhaol, a'i fod wedi newid eu barn ynghylch sut dylen nhw, fel sefydliadau, fod yn gwrando ar blant a phobl ifanc ac yn ymgysylltu â nhw yn y dyfodol.